**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Adroddiad CA(3)-14-10**

**Dyddiad:** 20 Mai 2010
**Amser:** 13.20
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

## CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 20 Mai 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, William Graham AC a Rhodri Morgan AC. Daeth Alun Davies AC i'r sesiwn breifat. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike German AC (Roedd Peter Black AC yn dirprwyo ar ei ran).

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 ac 15.3**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

- CA445 - Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Mai 2010. Fe'u gosodwyd ar 5 Mai 2010. Yn dod i rym ar 26 Mai 2010.

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

- CA444 - Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 30 Ebrill 2010. Fe'i gosodwyd ar 4 Mai 2010. Yn dod i rym ar 25 Mai 2010.

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad, o dan Reol Sefydlog 15.2, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ceir copi ohonynt yn Atodiad 1.

**Busnes arall**

**Ystyried Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 – tystiolaeth lafar gan Edwina Hart MBE AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

O dan Reol Sefydlog 15.6(ii), caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar "[ba] mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru". Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Edwina Hart MBE AC, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) – tystiolaeth lafar gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

O dan Reol Sefydlog 15.6(ii), caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar "[ba] mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru". Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Davidson AC, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

**Tystiolaeth ychwanegol gan y Fonesig Gillian Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru**

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth am (a) y cynllun gweithredu pum pwynt sy'n deillio o'r adolygiad gallu datganol a (b) y dull datrys anghydfodau, a ddarparwyd gan y Fonesig Gillian Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, ar ôl y sesiwn dystiolaeth yn y cyfarfod ar 18 Mawrth 2010. Yn y cyfarfod hwnnw, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol i ddiolch iddi am y wybodaeth ac i holi a fydd Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn gefnogol i benderfyniadau'r Weinyddiaeth flaenorol neu a yw'n ystyried cyflwyno unrhyw newidiadau. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig i drafod y materion hyn.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth ar y Mesur Arfaethedig Iechyd Meddwl (Cymru) a'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru).

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**20 Mai 2010**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**(CA(3)-14-10)**

**CA444**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

**Teitl: Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i nifer o newidiadau ynghylch twbercwlosis buchol yng Nghymru. Y ddau brif faes yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn yw eithriadau Profion Cyn Symud a newidiadau i'r gyfundrefn iawndal yng Nghymru. Mae hefyd yn mynd i'r afael â newidiadau ynghylch terminoleg yn y ddeddfwriaeth bresennol a rheolau sy'n llywodraethu sut i drin gwartheg a gaiff eu profi am dwbercwlosis buchol.

**Craffu technegol**

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

Mae erthygl 17 o'r Gorchymyn yn ymdrin â hysbysu'r bwriad i gigydda anifeiliaid. Yn y testun Saesneg, cyfeirir drwy gydol yr erthygl at "slaughter". Yn y Gymraeg, y geiriad sy'n cyfateb i "…detain the animal pending such slaughter…" yw "hyd nes lleddir...". Yng nghyd-destun y Gorchymyn, "cigyddir" fyddai'r term mwyaf cymwys gan ei fod yn awgrymu gweithred fwriadol ddiamwys, tra bod arwyddocâd mwy amwys i "lladd" – gellir terfynu bywyd yr anifail drwy weithred fwriadol neu'n ddamweiniol. [Rheol Sefydlog 15.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr Offeryn]

Mae testun Cymraeg paragraff 3(3)(b) o'r Atodlen i'r Gorchymyn yn cyfeirio at erthygl 12 sy'n cynnwys geiriad, mewn cromfachau, sy'n awgrymu effaith erthygl 12 i'r darllenydd. Mae'r testun Saesneg yn hepgor y geiriad hwn. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

**Craffu ar rinweddau**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau adrodd o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn/offeryn drafft hwn.

**Janet Ryder AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**20 Mai 2010**

**Ymateb y Llywodraeth:**

**Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010**

"Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am y sylwadau.

O ran erthygl 17(1), awgrymwn, yng nghyd-destun y Gorchymyn fel cyfanwaith, nad oes anghysondeb rhwng "lleddir" a "cigydda". Yng ngeiriadur Saesneg byrrach Rhydychen (Shorter OED) yr ystyr cyntaf a roddir i'r ferf "slaughter" yw "kill (cattle…..) for food". O ran "kill", diffinnir y ferf fel "put to death, cause the death of, deprive of life".

Cyd-destun polisi'r Offeryn yw rheoli clefydau mewn gwartheg. Y dull o waredu'r clefyd mewn gyr yw i gymryd yr anifail afiach ymaith a'i ladd. Does dim gwahaniaeth at pa ddiben y defnyddir y carcas ar ôl lladd yr anifail. Mae'r ffaith bod cynnyrch o'r carcas yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd yn cael ei adlewyrchu yn y defnydd o'r term cigydda, ond nid yw'r term yn bwysicach na hynny.

Prif bwynt erthygl 17(1) yw'r ffaith bod yr anifail yn cael ei gadw mewn modd sydd wedi'u nodi yn yr hysbysiad gan yr arolygydd, hyd nes y'i lleddir er mwyn rhwystro'r haint rhag lledaenu. Yn ein barn ni, mae'r defnydd o "lleddir" yn gyson â'r pwynt hwnnw. Mae'n dilyn hynny yn nghyd-destun yr Offeryn; yn ein barn ni, does dim anghysondeb rhwng ystyr y Saesneg a'r Gymraeg.

Rydym wedi cymryd camau, fodd bynnag, i newid y geiriad er mwyn cysoni â'ch sylwadau, a bydd hyn yn cael ei wneud cyn i'r Offeryn fynd at yr argraffwyr.

O ran y sylw am baragraff 3(3)(b) o'r Atodlen, nid ydym o'r farn bod y gwall hwn yn arwain at anghysondeb rhwng ystyr y Saesneg a'r Gymraeg. Nid ydym o'r farn ei fod yn dod o fewn Rheol Sefydlog 15.2(vi), oherwydd dim ond rhoi teitl yr erthygl a grybwyllwyd yn y ddarpariaeth mae'r geiriau "ychwanegol". Fodd bynnag, rydym yn ddiolchgar eich bod wedi dwyn hyn i'n sylw, a byddwn yn ei gywiro ar yr un adeg â'r cywiriad uchod. Ni fydd yr un o'r gwallau'n ymddangos yn y fersiwn argraffedig.